COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 087

**Amseru:** Arferol

**Teitl: Cytundeb Grant Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol - Estyniad**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae'r Comisiynydd wedi cytuno i ariannu prosiect peilot 12 mis gyda Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, gan ariannu 4 gweithiwr ieuenctid ar wahân ar draws 2 ardal benodol yn Nyfed-Powys. Mae'r cyllid ar gyfer y cynllun peilot 12 mis yn cyfateb i £33,000, ac fe gychwynnodd ym mis Tachwedd 2017.

**Argymhelliad:**

Estyn y cytundeb grant uchod i gyd-fynd â diwedd blwyddyn ariannol 2018/19. Gan hynny, byddai'r cytundeb yn cael ei estyn o 1 Tachwedd 2018 i 31 Mawrth 2019 er mwyn darparu cyllid ychwanegol o £13,750.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 18/9/2018